Pennod VIII

YMDDEOL

RETIREMENT

Chapter VIII

Rhifyn / Issue 1
14 Ebrill / April 2010

Pennod VIII

YMDDEOL

Chapter VIII

RETIREMENT

PENNOD VIII

YMDDEOL

1
2
3

CHAPTER VIII

RETIREMENT

1
2
3

Pennod VIII

YMDDEOL

1.

(1) Bydd Esgob Cadeiriol, Deon (gan gynnwys Periglor sydd hefyd yn Ddeon) neu Archddiacon yn ymddeol fel y cyfryw ar ei ben-blwydd neu ei phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed.

(2) Bydd Canon neu Brebendari yn ymddeol fel y cyfryw ar ei ben-blwydd neu ei phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed.

(3) Bydd Clerig a fo'n dal swydd arall neu ddiacones yn ymddeol ar ei ben-blwydd neu ei phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed, eithr gall ohirio'r cyfryw ymddeol am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis trwy hysbysu'r Esgob mewn ysgrifen o leiaf fis cyn bod yn ddeg a thrigain oed o'r dyddiad diweddarach y mae'n bwriadu ymddeol arno; eithr gall yr Esgob yn ei ddoethineb ganiatáu i Glerig neu ddiacones barhau am y cyfnod ac ymddeol ar y cyfryw ddyddiad diweddarach ag y tybio'r Esgob yn addas o bryd i'w gilydd.

2.

(1) Gall Esgob Cadeiriol ymddeol ar unrhyw adeg rhwng ei bumed pen-blwydd a thrigain a'i ddegfed pen-blwydd a thrigain.

(2) Gall unrhyw Glerig arall neu ddiacones ymddeol ar unrhyw adeg rhwng y pumed pen-blwydd a thrigain a'r degfed pen-blwydd a thrigain o hysbysu'r Esgob mewn ysgrifen dri mis ymlaen llaw o'r bwriad i wneud hynny, ar yr amod y gall Clerig neu ddiacones sydd wedi cyflawni deugain mlynedd o wasanaeth pensiynol cyn cyrraedd y pumed pen-blwydd a thrigain ymddeol ar unrhyw adeg wedi cyflawni hynny drwy roddi rhybudd o'r fath a derbyn y pensiwn y mae ganddo ef neu hi yr hawl iddo heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd os daw'r cyfryw ymddeoliad i rym cyn y pumed pen-blwydd a thrigain.

3.

(1) Gall yr Archesgob neu Esgob Cadeiriol ymddeol cyn bod yn bump a thrigain oed ar dir anallu parhaol i gyflawni ei ddyletswyddau, a bod profi'r anallu hwnnw trwy dystysgrif feddygol a thystiolaeth arall.

(2) Ar dir cyffelyb, o'i brofi yn yr un modd, gall unrhyw Glerig arall neu ddiacones ymddeol cyn bod yn bum mlwydd a thrigain oed, ac ym mhob achos gyda chaniatâd yr Esgob mewn ysgrifen.

Chapter VIII

RETIREMENT

1.

(1) A Diocesan Bishop, a Dean (including an Incumbent who is also a Dean) or an Archdeacon shall retire as such on his or her seventieth birthday.

(2) A Canon or Prebendary shall retire as such on his or her seventieth birthday.

(3) A Cleric holding other office or a deaconess shall retire on his or her seventieth birthday, save that he or she may postpone such retirement for a period not exceeding three months if at least one month before his or her seventieth birthday he or she notifies the Bishop in writing of the later date on which he or she intends to retire; nevertheless the Bishop, at his discretion, may allow such a Cleric or a deaconess to continue for such a period and to retire at such later date as the Bishop shall from time to time think fit.

2.

(1) A Diocesan Bishop may retire at any time between his sixty-fifth and seventieth birthday.

(2) Any other Cleric or a deaconess may retire at any time between his or her sixty-fifth and seventieth birthday on giving to the Bishop three months previous notice in writing of his or her intention so to do, provided that a Cleric or deaconess who has completed forty years pensionable service before his or her sixty-fifth birthday may retire at any time after having done so on giving such notice and be paid the pension to which he or she may be entitled without actuarial reduction in the event of such retirement taking effect prior to such sixty-fifth birthday.

3.

(1) The Archbishop or a Diocesan Bishop may retire before reaching the age of sixty-five on grounds of permanent disability preventing the performance of his duty, such disability to be proved by medical certificate and other evidence.

(2) On like grounds, similarly proved, any other Cleric or deaconess may retire before reaching the age of sixty-five years, in each case with the consent in writing of the Bishop.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials